"Ac yr wyf fi'n dweud wrthych: gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi."
**(Luc 11:9)**

Mae'r geiriau hyn gan Iesu yn dod yng nghanol sgwrs ynglŷn â gweddi. Y disgyblion oedd wedi gwneud cais i'w Hathro i'w dysgu i weddïo fel yr oedd Ioan Fedyddiwr wedi dysgu ei ddisgyblion yntau. Diolch i'r disgyblion am eu cais, ac i'r Arglwydd am ei atebion.

## Gofyn

Mae gofyn yn awgrymu gostyngeiddrwydd ac ymwybyddiaeth o angen. Mae'r ferf sydd yn cael ei defnyddio yma'n golygu bod person llai yn gwneud cais i berson mwy. Wrth feddwl am ddameg y Pharisead a'r casglwr trethi, doedd y Pharisead ddim yn gofyn am unrhyw beth gan Dduw. Roedd yn diolch ei fod yn well nag eraill, a'i fod yn cyflawni pob dyletswydd grefyddol.

Ar y llaw arall, un cais syml oedd gan y casglwr trethi: **"O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur"** (Luc 18:13). Roedd yn gofyn am help, fel pechadur, gan Dduw da.

Mae gofyn hefyd yn dangos bod Duw yn berson y gall dyn gael perthynas ag Ef. Wrth ofyn, mae'n disgwyl ateb. Felly, mae hyn yn awgrymu ffydd mewn Duw a all, ac sydd, ac y bydd yn ateb, hynny yw, ffydd yn Nuw y Tad.

## Chwilio

Mae chwilio yn golygu gofyn a gweithredu hefyd. Mae'n golygu gofyn taer, ond mae'n fwy na hynny. Mae person sy'n chwilio yn ymdrechu i gael ateb i'w anghenion. Er enghraifft, os yw person yn gofyn am well adnabyddiaeth o Air Duw, rhaid iddo fynd ati'n gyson i ddarllen a chwilio'r Ysgrythurau, mynychu oedfaon, ac yn arbennig i fyw mewn harmoni gydag ewyllys Duw sy'n cael ei datguddio yn y Beibl.

Mae dau fath o chwilio yn bosib hefyd: weithiau bydd plant yn chwilio am lyfr gwaith cartref yn ystod y gwyliau. Mae'r ymchwil yna'n gallu bod yn arwynebol, a dweud y lleiaf. Agor cwpwrdd neu ddrôr yn sydyn, a chyhoeddi eu bod wedi chwilio ond wedi 'methu'n lân' â chael gafael ar eu llyfr.

Yna, bydd yr un plant yn ystod yr un gwyliau yn chwilio am bêl i chwarae gêm, neu eu hoff C.D. i wrando ar gerddoriaeth. Bryd hynny, bydd holl gynnwys y cwpwrdd a'r drôr ar lawr.

Yr ail fath o chwilio sy'n gwneud argraff ar ein Tad nefol.

## Curo

Mae curo yn golygu gofyn, gweithredu a dal ati. Mae person yn curo drws nes cael ateb. Yn aml, dydy atebion gweddi ddim yn dod yn unionsyth. Mae nifer o ddamhegion Iesu sy'n dysgu hyn i ni. Roedd raid i'r weddw blagio'r barnwr anghyfiawn, ac mae'n rhaid i'r cymydog fod yn ddigywilydd wrth beidio â chymryd 'na' fel ateb. Yn 1 Bren. 18, mae Elias yn gweddïo seithwaith am law cyn i'r gwas weld cwmwl ar y gorwel. Roedd yr un proffwyd wedi gweddïo deirgwaith cyn i fab y weddw yn Sareffta gael ei atgyfodi o farw'n fyw.

## Pam?

Pam mae Iesu yn ein dysgu i ofyn, a cheisio a churo? Mae'r darluniau mae'n eu rhoi cyn ac ar ôl y geiriau hyn yn awgrymu dau ateb:

***Mae'n dangos angen a difrifoldeb***

Mae'r hanesyn bach cyntaf yn darlunio cymydog wedi derbyn ymwelwyr hwyr, ac yntau heb fwyd i'w croesawu. Mae'n curo drws ei gymydog i ofyn am fara. Does dim un dorth yn ei gartref, ac mae'n gorfod cael rhywbeth i osod gerbron ei ymwelwyr, ac mae'n gwybod bod gan ei gymydog y bara angenrheidiol. Yn ei angen a'i benderfyniad mae'n curo'n ddigywilydd nes cael ateb. Mae hynny'n egluro'n dda pam mae'n rhaid i ni weddïo o ddifrif. Rhaid i ni ddangos i'n Tad nefol ein bod wir angen ei fendith. Rhaid i ni ddangos na fyddwn yn fodlon nes iddo roi ateb i ni, a rhaid dangos hefyd ein bod yn gwybod mai ganddo Fe mae'r hyn yr ydym yn ei geisio.

***Oherwydd bod Duw yn Roddwr Da***

Mae'r ail ddarlun yn dangos mab yn gofyn am fwyd gan ei dad. Mae pob rhiant yn awyddus i roi bwyd da i'w blant. Yr ydym wedi'n creu gan y Tad nefol, ac mae rhyw ddiferyn o'i ofal tadol Ef wedi aros gyda phob un ohonom, er gwaethaf ein pechod. Felly, dyw tad daearol ddim yn rhoi sarff nac ysgorpion i'w blentyn. Mae plentyn yn gofyn yn hyderus i'w dad am fwyd; a gallwn ni ofyn yn hyderus am roddion da ac am yr Ysbryd Glân, sydd yn rhoi pob gras a daioni inni, i'n Tad nefol hefyd.

Diolch eto am ddarluniau ac anogaeth gynnes i geisio'n Tad nefol.